**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC Y GOGLEDD**
**(Rheol 20(3) Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2) (Cymru) 2021)**

**31 Mawrth 2025**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Goronwy Edwards (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Cyngor Sir Ynys Môn) (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
Craig ab Iago (Cyngor Gwynedd), Barry Mellor (Cyngor Sir Ddinbych), Glyn Banks (Cyngor Sir Fflint) ac David Bithell (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

**Aelodau Cyfetholedig (Heb Bleidlais):**
Angela Jones (Parc Cenedlaethol Eryri) a Ben George (Trafnidiaeth Cymru)

**Prif Swyddogion:**
Huw Percy (Cyngor Sir Ynys Môn), Gerwyn Jones (Cyngor Gwynedd), Geraint Edwards (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Emlyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Katie Wilby (Cyngor Sir y Fflint) a Gwen Thomas (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Swyddogion yn bresennol:**
Alwen Williams (Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro), Jack Latkovic (Swyddog Democratiaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig), David Hole (Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd) ac Andy Roberts (Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol).

**Eraill yn bresennol:**
Allan Pitt (ARUP) ac Adam Graham (Trafnidiaeth Cymru)

**Ymddiheuriadau:**

- Dafydd Wyn Williams (Cyngor Gwynedd) gyda Gerwyn Jones yn dirprwyo
- Darren Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gyda Gwen Thomas yn dirprwyo)
- Iwan Evans (Swyddog Monitro)
- Dewi Morgan (Swyddog Cyllid)

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC Y GOGLEDD**
**(Rheol 20(3) Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2) (Cymru) 2021)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd** | 31 Mawrth, 2025 |

**PWNC**

Eitem 5: ADRODDIAD CHWARTEROL YR IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwyo'r Adroddiad Chwarterol gan:**

1. **Argymell i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru er mwyn derbyn diweddariad o'r trefniadau i gyllido prosiect Diwygio Bysiau ac Masnachfreinio.**
2. **Mynegi pryder am barhad gwasanaeth wrth i brosiect Diwygio Bysiau a Masnachfreinio gael ei ddatblygu ymhellach.**
3. **Gofyn am drafodaeth bellach ar gyfer cyllido gwasanaeth bws (coets) o ddwyrain i orllewin Cymru a hefyd gwasanaeth bws Gogledd Cymru i'r De, i gyd fynd gyda gwasanaethau rheilffordd drawsffiniol, heb amharu ar wasanaethau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor ar 1 Hydref 2024. Mae'r Is-bwyllgor wedi cyfarfod ar ddau achlysur, ac ystyrir ei bod yn briodol adolygu'r gwaith a wnaed a sicrhau bod yr adnoddau cywir yn eu lle i ddiwallu datblygiadau yn y dyfodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC Y GOGLEDD**
**(Rheol 20(3) Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2) (Cymru) 2021)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd** | 31 Mawrth 2025 |

**PWNC**

Eitem 6: DIWEDDARIAD CYNNYDD AR Y CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL A'R BERTHYNAS GYDA'R CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr Adroddiad gan nodi'r cynnydd ar y Cynllun Datblygu Strategol a'r berthynas gyda'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hyd yma.**
- **Rhaglennu Adroddiad pellach i'r Is-bwyllgor hwn er rannu gwybodaeth gydag aelodau o gynlluniau, megis bws trydan, a geir o fewn prosiect Anturiaethau Cyfrifol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Sicrhau bod yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn gwbl ymwybodol o'r cynnydd gyda'r Cynllun Datblygu Strategol o gyfnod cynnar, i hyrwyddo ymgysylltiad rheolaidd ac ymagwedd integredig at gynllunio strategol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad